

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor uchod yn Neuadd Bentref Llanelltyd
Nos Fawrth, Ebrill 11, 2017 am 7.30 o'r gloch.

AGENDA

Gweddi

1. Ymddiheuriadau:

2. Datgan diddordeb:

Eitem 10.b. Llythyr ateb (28/3/2017) oddi wrth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ynglŷn â'r cwt haearn sydd wedi ei osod ar ochr y ffordd Swyn y Nant, Bontddu. Maent eisiau gwybod pwy sy'n berchen arno a pa mor hir y mae wedi bod yno.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Mawrth 14, 2017

4. Materion yn codi o'r cofnodion Mawrth 14, 2017

Eitem 8.11. Anfonwyd y ffurflen i'r aelodau oedd yn absennol o'r cyfarfod.

5. Materion Ariannol

a. Bil (14/3/2017) treth annomestig Genedlaethol ar gyfer 2017/18 tuag at Public Conveniences Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Mae'n cael ei dalu trwy Direct Debit. Taliad 07.04.2016 = £20.05, ac yna £23.00 y mis (dros 9 mis). Cyfanswm yn £227.05 (llynedd y cyfanswm oedd £277.02).

b. Llythyr (16/3/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Bontddu yn diolch am ein rhodd o £450.

c. Llythyr (8/3/2017) oddi wrth Elusen Ambiwlans Awyr Cymru yn diolch am ein rhodd o £100.

d. Llythyr (21/3/2017) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £50.

dd. Llythyr (21/3/2017) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd a De Ynys Môn yn diolch am ein rhodd o £100.

e. Llythyr (22/3/2017) oddi wrth Neuadd Bentref Llanelltyd yn diolch am ein rhodd o £450.

f. Llythyr (23/3/2017) oddi wrth Canolfan Therapi Plant Bobath Cymru yn diolch am ein rhodd o £50.

ff. Llythyr (16/3/2017) oddi wrth E.W. Owen a'i Chwmni yn cynnwys:

- i. Copi o P60 am y flwyddyn yn diweddu 05/04/2017).
 - ii. Bil am £180 am gwblhau PAYE am y flwyddyn yn gorffen 5 Ebrill 2017.
 - g. Llythyr (16/3/2017) a Ffurflen Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 oddi wrth BDO LLP (Archwiliwr Allanol). Angen cwblhau'r ffurflen cyn Mehefin 20, 2017.
 - h. Derbyniwyd (24/3/2017) £85 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab Cyf. at ail osod beddfaen ar y diweddar Lilian Roberts a Raymond Arthur Roberts.
 - i. Bill (18/3/2017) am £46 oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, am archwilio cyfrifon am y flwyddyn ariannol 2015 – 2016.
 - j. Llythyr (18/3/2017) oddi wrth Mr J.D. Roberts, Archwiliwr Mewnol, yn dweud ei fod yn cynig ei hun fel archwiliwr mewnol am y flwyddyn ariannol 2016 – 2017. Mae wedi cael gwahoddiad i ymgymryd â'r gwaith gan rai cynghorau ac wedi derbyn. Mae eisiau gwybod os rydym ni angen ei wasanaeth. Os rydym, mae angen ein dogfenau ar Mai 25, 2017.
- Anfonwyd (1/4/2017) copi o fanylion yswiriant y Cyngor i gwmni Zurich i gael pris ganddynt.
- l. Llythyr (3/4/2017) oddi wrth Pennaeth Adran Rheoleiddio (Dros Dro) yn rhoi manylion am y newid yn nhrefniant ad-daliad costau cynnal llwybrau cyhoeddus. Amgáu mae tabl yn dangos y swm sydd wedi ei glustnodi ar gyfer y cynghorau am 2017/18. Y swm ar gyfer ein Cyngor yw £841.17. Maent eisiau gwybod cyn 22 Ebrill os rydym am fod yn rhan o'r trefniant ad-dalu. Amgáu hefyd mae holiadur i'w gwblhau.

6. Mynwent Llanelltyd

7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

8. Gohebiaeth

- a. Llythyr (29/3/2017) oddi wrth Eirlys Roberts yn rhoi gwybod ei bod yn ymddiswyddo o'r Cyngor.

9. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

10. Materion Brys

- a. Mae angen lleoliad newydd i'r hysbysfwrdd yn Bontddu.
- b. Mae angen cael gwybod beth yw'r drefn o anfon Agenda i'r aelodau.

Yn gywir,
H.M. Edwards, Clerc
